**COFNODION O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH**

**CABINET**

**10 JULY 2024**

**Aelodau'r Cabinet:**

Cynghorwyr: A Llewelyn (Cadeirydd), S A Knoyle, N Jenkins, J Hurley, S Harris, J Hale, A Llewelyn, W F Griffiths, S Jones a C Phillips

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:**

N Pearce, A Jarrett, A Thomas, H Jones, C Griffiths, S Brennan, D Griffiths, C Howard, K Warren, A Collins, V Smith, A Metcalf, R Livingstone, G Powell, N Jones a T Davies

**Gwesteion Craffu/ Cabinet yr Wrthblaid:** Y Cynghorwyr P Rogers, S Thomas, P D Richards ac R Wood

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Llewelyn yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod. Teimlai fod y budd hwn yn rhagfarnus, felly gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem berthnasol:

Y Cynghorydd S Jones – Cofnod Rhif 14 – Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Cymeradwyo Prosiectau – gan ei fod yn Ymddiriedolwr Clwb Pêl-droed Croeserw.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar 29 Mai 2024, yn gofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2024/25**

Nodwyd Blaenraglen Waith 2024/25.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **DATGANIAD SEFYLLFA ALLDRO A CHRONFEYDD REFENIW 2023-24**

**Penderfyniad:**

Nodi'r adroddiad monitro, mewn perthynas â sefyllfa alldro cyllideb 2023/24 a balansau wrth gefn.

8. **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2023/24**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro yn cael ei nodi.

9. **ADRODDIAD ALLDRO BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24**

**Penderfyniad:**

Nodi perfformiad swyddogaeth rheoli'r trysorlys 2023/24, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, gan gynnwys y dangosyddion darbodus a'r trysorlys gwirioneddol ar gyfer 2023/24.

10. **CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEDDF YR EGLWYS YNG NGHYMRU CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

2. Cytuno i gyflwyno'r adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol i Swyddfa Archwilio Cymru i'w harchwilio'n annibynnol.

3. Cymeradwyo cyflwyno'r cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau, os na fydd Swyddfa Archwilio Cymru'n nodi unrhyw newidiadau sylweddol.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol ar gyfer
Cronfa Ymddiriedolaeth Deddf Eglwys Cymru 2023/24.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **CAIS AM GRONFEYDD GRANTIAU AMRYWIOL**

**Penderfyniad:**

Ar yr achlysur hwn, gwrthodwyd rhoi cymorth grant i'r Groes Goch Brydeinig i barhau i gefnogi pobl ddiamddiffyn, gan gynnwys yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Groes Goch Brydeinig yn elusen ryngwladol gyda chronfeydd sylweddol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Penderfynu ar swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

12. **DYDDIADAU TYMHORAU YSGOL 2026-2027**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau Ysgol arfaethedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/2027, fel a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Penderfynu ar ddyddiadau'r Tymor Ysgol ar gyfer 2026/2027.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

13. **CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU - CYMERADWYO PROSIECTAU**

(Ar y pwynt hwn, ailddatganodd y Cyng. S Jones ei fuddiant, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon)

**Penderfyniadau:**

Cymeradwyo'r prosiectau canlynol, y mae'r Aelodau'n cymryd rhan ynddynt, a gyflwynwyd o dan Gronfa Gwella Cyfleusterau Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin Castell-nedd Port Talbot (UKSPF) y DU:

1. Clwb Pêl-droed Croeserw – Uwchraddio'r ystafell newid a'r gwaith trydanol.

2. Clwb Rygbi Aberavon Green Stars – gosod paneli solar.

3. Canolfan Ymgysylltu â'r Gymuned Cwmafan – Uwchraddio'r lloriau ac uwchraddio trydanol.

4. Cyfeillion Blaendulais – Uwchraddio llwybrau cerdded a beicio.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i roi Cynllun Gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar waith a dweud wrth ymgeiswyr am y penderfyniad ariannu.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

.

14. **<u>DEFNYDD ARFAETHEDIG HEN ADEILAD LLYFRGELL CASTELL-NEDD YNG NGHASTELL-NEDD YN Y DYFODOL</u>**

(Ailymunodd y Cynghorydd S Jones â'r cyfarfod)

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, cytunwyd ar y canlynol:

1. Bydd swyddogion yn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir (Opsiwn 1 yn yr Astudiaeth Ddichonoldeb a gynhyrchwyd gan *Counter Culture*, fel a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd) ar gyfer defnyddio adeilad gwag y llyfrgell yng Nghastell-nedd fel hwb creadigol yn y dyfodol.

2. Bydd swyddogion yn bwrw ymlaen ag ymarfer caffael i dendro ar gyfer sefydliad i brydlesu a gweithredu'r adeilad.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniadau:</u>**

Galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i fwrw ymlaen â'r gwaith o ailwampio hen adeilad pwysig a gwag Llyfrgell Castell-nedd er mwyn ei ddefnyddio er budd y gymuned fel hwb creadigol ac atal yr adeilad rhag dadfeilio ymhellach.

**<u>Rhoi Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**<u>Ymgynghoriad:</u>**

Cynhaliwyd ymgynghoriad gan *Counter Culture* gyda rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghoriad ehangach mewn perthynas â chymaryddion fel rhan o'r astudiaeth dichonoldeb.

15. **<u>RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY</u>**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, fod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn cael ei newid fel a ganlyn:

Cwmnïau i'w hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| HCD Haywood Crushing Demolition Ltd (H031) | 75, 79 |
| National Testing Services Ltd (N020) | 78 |
| ASG Highways Ltd T/A Bridgecare (A078) | 91, 92 |

Cwmnïau i'w tynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Anthesis Energy UK Ltd (S061) | 111 |
| SWARCO Traffic Ltd (S092) | 1, 111 |
| Universal Sealants (UK) Ltd (U002) | 91, 92 |
| Europest Environmental Services Ltd (E032) | 4, 5 |

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Cadw'r Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy’n gyfoes a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol, ac at ddibenion cyflenwi Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy am wahoddiad i dendro o fewn y categori perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

16. **HYSBYSEBU GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG AMRYWIOL SY'N GYSYLLTIEDIG Â RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2024-2025 A RHAGLEN WAITH A ARIENNIR GAN GRANT LLYWODRAETH CYMRU 2024-2025.**

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, rhoddir cymeradwyaeth i Swyddogion yr Is-adran Traffig hysbysebu cynlluniau a gynhwysir o fewn y canlynol yn unol â'r gofynion statudol:

   - Rhaglen Gyfalaf Traffig 2024-2025 (fel a fanylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd)

   - Rhaglen Teithio Llesol 2024-2025 (fel a fanylir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd)

   - Rhaglen Lleoedd Parcio Unigol i'r Anabl 2024-2025 (fel a fanylir yn Atodiad C i'r adroddiad a ddosbarthwyd)

   - Rhaglen Cyflwyno Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2024-2025 (fel a fanylir yn Atodiad D i'r adroddiad a ddosbarthwyd)

   - Grant Diogelwch ar y Ffyrdd Cyfalaf Llywodraeth Cymru (fel a fanylir yn Atodiad E i'r adroddiad a ddosbarthwyd)

2. Bod y cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith yn unol â'r gofynion statudol perthnasol a gynhwysir yn y Rheoliadau Traffig Ffyrdd cyfredol, ar yr amod na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau. Os caiff unrhyw wrthwynebiadau eu derbyn mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau, bydd y rhain yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniadau:</u>**

Mae'r cynlluniau'n angenrheidiol er budd diogelwch ar y ffyrdd, gan ddarparu gostyngiad cyflymder, hyrwyddo Teithio Llesol, rhoi blaenoriaeth i leoedd parcio unigol i'r anabl wrth barcio ar y stryd, darparu digon o ddarpariaeth barcio a lleihau anafiadau yn y Fwrdeistref.

**<u>Rhoi Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**<u>Ymgynghoriad:</u>**

Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Aelodau(au) lleol ar gyfer pob ward yr effeithir arno gan gynllun cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol gael ei gynnal gyda'r cyhoedd ac unrhyw gyrff eraill yr effeithir arnynt.

17. **GORCHYMYN TRAFFIG - GORCHYMYN HEOL GILFACH, BRYNCOCH, CASTELL-NEDD (DIRYMU) A (THERFYN CYFLYMDER 30 MYA) 2024**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, diystyru'r gwrthwynebiad i orchymyn C250 o'r Cymer i Lyncorrwg a Heol y Cymer, Glyncorrwg (Dirymu) a (Terfyn Cyflymder 40mya) 2024 (fel a fanylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), rhoi'r cynllun ar waith fel y'i hysbysebir, a hysbysu'r gwrthwynebydd am y penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu terfyn cyflymder clustogi o 40mya ymlaen llaw i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar rannau bach o'r briffordd a oedd yn defnyddio'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn flaenorol, er budd diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

18. **GORCHYMYN TRAFFIG - GORCHYMYN C250 O'R CYMER I LYNCORRWG A HEOL Y CYMER, GLYNCORRWG (DIRYMU) A (THERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2024.**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, diystyru'r gwrthwynebiad i orchymyn Heol Gilfach, Bryncoch, Castell-nedd (Dirymu) a (Terfyn Cyflymder 30mya) 2024 (fel a fanylir yn Atodiad A i'r

adroddiad a ddosbarthwyd), rhoi'r cynllun ar waith fel y'i hysbysebir, a hysbysu’r gwrthwynebydd am y penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu terfyn cyflymder clustogi o 30mya ymlaen llaw i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar rannau bach o'r briffordd a oedd yn defnyddio'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn flaenorol, er budd diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

19. **GORCHYMYN TRAFFIG - GORCHYMYN Y B4242 HEOL CASTELL-NEDD, ABERGARWED (DIRYMU) A (TERFYN CYFLYMDER 40MYA 2024**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, diystyru'r gwrthwynebiad i'r B4242 Heol Castell-nedd, Abergarwed (Dirymu) a (Terfyn Cyflymder 40mya) 2024, fel a fanylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd, rhoi'r cynllun ar waith fel y'i hysbysebir, a hysbysu’r gwrthwynebydd am y penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu terfyn cyflymder clustogi o 40mya ymlaen llaw i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar rannau bach o'r briffordd a oedd yn defnyddio'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn flaenorol, er budd diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol

20. **GORCHYMYN TRAFFIG - GORCHYMYN YN HEOL LONGFORD, HEOL DYFFRYN A'R LÔN RHWNG HEOL DYFFRYN A HEOL Y FFERMWYR, CASTELL-NEDD (DIRYMU) A (THERFYN CYFLYMDER 30 MYA) 2024**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, diystyru'r gwrthwynebiad i orchymyn Heol Longford, Heol Dyffryn a Lôn rhwng Heol Dyffryn a Ffordd y Ffermwyr, Castell-nedd (Dirymu) a (terfyn cyflymder 30mya) 2024, (fel a fanylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), rhoi'r cynllun ar waith fel y'i hysbysebir, a hysbysu'r gwrthwynebydd am y penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu terfyn cyflymder clustogi o 30mya ymlaen llaw i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar rannau bach o'r briffordd a oedd yn defnyddio'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn flaenorol, er budd diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

21. **CAFFAEL CYTUNDEB CYNGHREIRIO RHANBARTHOL AR GYFER GWASANAETHAU CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, y dylid cymeradwyo'r canlynol:

1. Ymgymryd ag ymarfer caffael i gomisiynu cynghrair o ddarparwyr i ddarparu gwasanaethau defnyddio sylweddau ar draws rhanbarth Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

2. Yn dilyn y broses gaffael, rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Tai a Chymunedau i ymrwymo i gontract gyda'r cynigwyr buddugol.

3. Bod y Pennaeth Tai a Chymunedau'n ymrwymo i gytundeb partneriaeth gyda sefydliadau partner APB.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod gwasanaethau defnyddio sylweddau ar draws rhanbarth Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot o ansawdd uchel, yn gynaliadwy yn ariannol ac yn gallu diwallu anghenion presennol y boblogaeth ac anghenion y boblogaeth yn y dyfodol

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

22. **CEFNOGI RHIENI SYDD MEWN GOFAL AC SY'N GADAEL GOFAL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r Siarter Cefnogi Rhieni mewn Gofal ac wrth ei Adael, fel a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod y Cyngor wedi ymrwymo i'r Siarter fel Rhiant Corfforaethol da.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

23. **GWASANAETH MABWYSIADU BAE'R GORLLEWIN - ADRODDIAD ANSAWDD GWASANAETH - MIS MAWRTH**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

24. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

25. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o'r Atodlen.

26. **CYNNIG ARFAETHEDIG I WAREDU TIR (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

Siaradodd Aelod y Cabinet dros Natur, Twristiaeth a Llesiant am ecoleg a bioamrywiaeth, yn ogystal â chadwraeth natur mewn perthynas â'r tir a gynigir i'w waredu. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod y tir yn cael ei waredu yn unol ag amodau'r CDLl presennol, ac eglurodd rôl Ecolegwyr y Cyngor.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, am y rhesymau a fanylir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd cytunwyd i waredu'r tir (ar yr amodau a thelerau a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd).

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu derbynneb cyfalaf i'r Cyngor.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

27. **TREFNIADAU COMISIYNU AR GYFER GWASANAETHAU MONITRO GALWADAU TECHNOLEG GYNORTHWYOL AC YMATEB SYMUDOL (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r gwaith o gynnal ymarfer caffael, sy'n cynnwys dau lwyth i'w comisiynu:
   - Gwasanaeth monitro galwadau ar gyfer cleientiaid teleofal a llinell fywyd.
   - Gwasanaeth Ymateb Symudol.

2. Yn dilyn y broses gaffael, rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion ymrwymo i gontract gyda'r cynigwyr buddugol.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n gyfreithiol wrth brynu'r gwasanaethau hyn. Yn ogystal, bydd hyn yn sicrhau mai'r Cyngor sydd yn y sefyllfa orau i barhau i ddiwallu anghenion a gofynion y rheini y mae angen y gwasanaethau hyn arnynt drwy brynu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy yn ariannol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**